

## PADARN (c. 560), sant Celtig

**Enw:** Padarn

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** sant Celtig

**Maes gweithgaredd:** Crefydd

**Awdur:** Emrys George Bowen

y dywedir ei fod yn gyfoes â [Dewi](#) a [Teilo](#). Cysylltir ef â nifer bychan o eglwysi yn siroedd Aberteifi a Maesyfed. Ychydig o ddefnyddiau dilys yngl n ag ef sydd i'w gael yn yr unig fuchedd ('vita') iddo a geir yn y casgliad o ysgrifau'r Canol Oesoedd a elwir yn B.M. Vespasian A, xiv. Dywedir yn y fuchedd hon iddo ddyfod o Lydaw. Y mae'r ffurf Ladiniaidd Paternus yn enw ar (o leiaf) ddau sant arall o Lydaw, ac felly, pan ddaethpwyd i ysgrifennu buchedd sefydlydd Llanbadarn Fawr yng Ngheredigion, nid ydyw'n syndod o gwbl i'r fuchedd honno gael ei chymysgu megis o raid â bucheddau'r seintiau Padarn eraill. Gwnaeth y canon G. H. Doble ymdrech ganmoladwy i ddatgylmu'r clymwaith a wnaethpwyd gan ysgrifenywyr Normanaidd bucheddau saint; y casgliad y daeth Doble iddo ydoedd na ellir mwyach dderbyn y dybiaeth bod Padarn yn hanfod o Lydaw, ac y mae ef yn pleidio barn ysgolheigion yr oes bresennol sydd yn awgrymu y dylid chwilio yn ne-ddwyrain Cymru am y 'Llydaw' y daeth Padarn ohoni. Os o'r rhan honno o'r wlad y tarddodd y sant, yna y mae'n bosibl esbonio dosbarthiad yr eglwysi hen sydd yn dwyn ei enw trwy dybied iddo gyrraedd hyd at orllewin Cymru trwy drafaelio dros y môr - y mae ei eglwys fawr yng Ngheredigion yng ngolwg y môr - ac i'w addoliad ('cult') ymwasgar i mewn i'r wlad trwy'r cymoedd rhwng y mynyddoedd a chyrraedd i ddyffrynnoedd sir Faesyfed. (Ceir enghreifftiau adnabyddus yn yr oes haearn gyn-Rufeinaidd o ddiwylliant yn ymledu ac yn arddangos dulliau ymwasgar cyffelyb yng nghanolbarth Cymru). Parhaodd enwogrwydd 'clas' Llanbadarn Fawr yng Ngheredigion am beth amser ar ôl marw Padarn; yn wir, parhaodd hyd y cyfnod Normanaidd, oblegid fe sylwodd [Gerallt Gymro](#) pan aeth trwy yr ardal yn 1188 fod y 'clas' yn parhau, er ei fod erbyn hynny mewn ystad o ddirywiad.

### Awdur

Yr Athro Emrys George Bowen, (1900 - 1983)

### Ffynonellau

G. H. Doble, *Saint Patern, Cornish Saints Series, 43* (1940) (Cornish Saints Series, 43), 1940

E. G. Bowen, '[The Celtic Saints in Cardiganshire](#)' yn *Ceredigion*, i, 1-15, 1950

Baring-Gould a J. Fisher, *The Lives of the British Saints*, iv, 39-51

### Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [Padarn](#)

### Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q770633](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

